Rhaglen Gyflawn

# CABINET

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Dydd Mawrth, 7fed Medi, 2021 |
| **AMSER** | 1.00 y.h. |
| **LLEOLIAD** | Cyfarfod Rhithiol - i gael mynediad dilynwch y linc: https://gwynedd.public-i.tv/core/portal/home |
| **PWYNT CYSWLLT** | Annes Siôn<br>01286 679490 / cabinet@gwynedd.llyw.cymru |

## AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

| **Aelodau** | |
|---|---|
| Dyfrig L. Siencyn | Arweinydd |
| Dafydd Meurig | Dirprwy Arweinydd, Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| Craig ab Iago | Aelod Cabinet Tai |
| Gareth Wyn Griffith | Aelod Cabinet Amgylchedd |
| Nia Wyn Jeffreys | Aelod Cabinet dros Gefnogaeth Gorfforaethol |
| Dilwyn Morgan | Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc |
| Gareth Thomas | Aelod Cabinet Datblygu'r Economi a Chymuned |
| Ioan Thomas | Aelod Cabinet Cyllid |
| Catrin Wager | Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol |
| Cemlyn Rees Williams | Aelod Cabinet Addysg |

# RHAGLEN

| | Eitem | Cyflwynir gan | Swyddog | Tud. |
|---|---|---|---|---|
| 1 | YMDDIHEURIADAU | | | |
| 2 | DATGAN BUDDIANT PERSONOL | | | |
| 3 | MATERION BRYS | | | |
| 4 | MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU | | | |
| 5 | COFNODION CYAFARFOD A GYNHALIWYD AR 27 GORFFENNAF 2021 | | | 3 - 9 |
| 6 | ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET DROS YR ADRAN BRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL AC YMGYNGHORIAETH GWYNEDD | Cyng. Catrin Wager | Steffan Jones a Huw Williams | 10 - 22 |
| 7 | ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET DROS ADRAN AMGYLCHEDD | Cyng. Gareth Griffith | Dafydd Wyn Williams | 23 - 28 |
| 8 | BLAEN RAGLEN Y CABINET | Cyng. Dyfrig Siecyn | | 29 - 31 |

**Y CABINET DYDD MAWRTH, 27 GORFFENNAF 2021**

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Dyfrig L Siencyn, Dafydd Meurig, Craig ab Iago, Gareth Griffith, Nia Jeffreys, Dilwyn Morgan, Ioan Thomas, Gareth Thomas, Catrin Wager a Cemlyn Williams.

**Hefyd yn bresennol-**
Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Iwan Evans (Pennaeth Cyfreithiol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), ac Annes Siôn (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

Eitem 6 a 7: Geraint Owen (Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol)
Eitem 8: Garem Jackson (Pennaeth Adran Addysg) a Rhian Parry Jones (Swyddog Addysg Uwchradd).
Eitem 10: Steffan Jones (Pennaeth Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) Geraint Brython Edwards (Cyfreithiwr) a Peter Simpson (Rheolwr Gwasanaethau Stryd).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Corfforaethol.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nid oedd unrhyw faterion brys.

**4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o drosolwg a chraffu.

**5. COFNODION CYAFARFOD A GYNHALIWYD AR 6 GORFFENNAF 2021**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf 2021, fel rhai cywir.

## 6. DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021 - CAIS AM ADNODDAU I ALLUOGI MYNYCHU CYFARFODYDD O BELL

Cyflwynwyd yr eitem gan y Cyng. Nia Jeffreys

**PENDERFYNWYD**

Cytunwyd i ddefnyddio £130,000 o'r 'Gronfa Trefniadau Adfer yn sgil Covid19' i ariannu cynlluniau i alluogi cyfarfodydd hybrid a mynediad o bell i gyfarfodydd y Cyngor yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi ei fod yn gais am adnoddau i alluogi mynychu cyfarfodydd o bell. Amlygwyd fod adroddiad wedi ei gyflwyno i'r Cabinet a Cyngor Llawn diwethaf yn amlinellu gofynion newydd yn sgil Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, yn benodol yr angen i sicrhau mynediad o bell i aelodau a sicrhau mynediad i'r cyhoedd. Bu i'r Cabinet a'r Cyngor Llawn fabwysiadu trefniadau interim gan barhau i gynnal Cyfarfodydd yn rhithiol ar hyn o bryd.

Eglurwyd y bydd yn ofynnol sicrhau darpariaeth hybrid i'r dyfodol gyda rhai aelodau yn Siambr gydag eraill yn mynychu o bell. Mynegwyd y bydd hyn yn debygol o fod yn rhan o'r normal newydd ac o ganlyniad y bydd angen iddo fod yn syml ac yn rhedeg yn llyfn i Aelodau a swyddogion ble bynnag y byddant y cysylltu.

Amlygwyd y buddion o gynnig y ddarpariaeth â oedd yn cynnwys lleihau ôl troed carbon a sicrhau gwell defnydd o amser unigolion. Nodwyd fod angen y gefnogaeth ariannol er mwyn uwchraddio'r dechnoleg.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Dangoswyd cefnogaeth i ariannu'r cynlluniau er mwyn nid yn unig lleihau ôl troed carbon ond i ddenu mwy o amrywiaeth i ymgeisio fel Cynghorwyr yn yr etholiad y flwyddyn nesaf.
- Cefnogwyd y cais am arian gan fod cymaint wedi arfer defnyddio technoleg yn dilyn y flwyddyn ddiwethaf. Nodwyd fod y swm yn edrych yn uchel ond fod costau teithio cynghorwyr wedi lleihau o ganlyniad i ddefnydd o'r dechnoleg.
- Amlygwyd yr angen am gadeirio cadarn os cyfarfodydd hybrid yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau tegwch.
- Holwyd os y bydd y dechnoleg i'w gweld yn y siambrau yn unig, nodwyd y bydd ystafelloedd cyfarfod ym mhrif swyddfeydd y Cyngor yn Cae Penarlag, Ffordd Y Cob, Penrhyndeudraeth, Penrallt a'r Pencadlys yn cael eu huwchraddio, gan ddefnyddio'r un dechnoleg ymhob lleoliad, a fydd yn hwyluso mynediad o bell ynghyd a rhoi hyblygrwydd.

## 7. UNED 2A PARC BUSNES ERYRI, PENRHYNDEUDRAETH

Cyflwynwyd yr eitem gan y Cyng. Nia Jeffreys

**PENDERFYNWYD**

Cytunwyd i ddefnyddio £83,000 o’r 'Gronfa Trawsffurfio’ i wireddu addasiadau i adeilad Uned 2a, Parc Busnes Eryri, Penrhyndeudraeth er mwyn hwyluso cyswllt rhwng yr Adran Oedolion â’r gwasanaethau Iechyd a chreu ‘Siop Gwynedd’ i wasanaethu trigolion yr ardal.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adroddiad yn gofyn am fuddsoddiad o £83,000 o’r gronfa Drawsffurfiol Busnes i wireddu addasiadau i’r adeilad ym Mhenrhyndeudraeth. Mynegwyd yr angen i addasu’r adeilad er mwyn hwyluso’r cyswllt rhwng y Cyngor a thriolion.

Eglurwyd cyn y pandemig, fod y nifer o staff a oedd wedi ei lleoli yn swyddfa Galw Gwynedd wedi lleihau, a bellach mai dim ond uchafswm o 12 o staff ac Arweinydd Tîm fyddai wedi eu lleoli yn y ganolfan ar un adeg. Amlygwyd o ganlyniad i’r newid hwn mae cyfle i wneud gwell drefnydd o’r adeilad sydd mewn lleoliad defnyddiol i staff sy’n gwasanaethau Eifionydd. Nodwyd y bydd Siop Gwynedd yn cael ei sefydlu yno ynghyd a lleoliad swyddfa i staff yr Adran Oedolion sy’n cyd-weithio’n agos gyda’r gwasanaeth iechyd a fyddai o fewn pellter rhesymol o Ysbyty Alltwen.

Ychwanegodd Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol fod gwneud yr addasiadau yma yn llenwi bwlch o yn y ddarpariaeth yn yr ardal ac yn rhoi cyfle i staff gofal a’r gwasanaeth iechyd i gydweithio mewn un lleoliad.

Sylwadau’n codi o’r drafodaeth:

- Nodwyd fod addasu’r adeilad yn rhoi cyfle i gynnig gwell gwasanaeth i drigolion Gwynedd ac i annog cyd-weithio gwell rhwng yr Adran Oedolion a’r maes Iechyd.
- Holwyd gan fod y swyddfeydd am fod yn integredig rhwng Iechyd ar adran Oedolion holwyd os bydd y Bwrdd Iechyd yn cyfrannu at y costau. Eglurwyd fod lleoliadau yn y Gwasanaeth Iechyd y maes staff integredig y Cyngor yn gweithio ohonynt felly ni fydd angen gofyn am unrhyw gyfraniad.

## 8. CYNLLUN STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG 2022-2032

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Cemlyn Williams

**PENDERFYNWYD**

Cymeradwywyd Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032 i fynd i gyfnod ymgynghori cyhoeddus yn nhymor yr Hydref 2021.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi ei bod yn bleser cyflwyno'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Eglurwyd y bydd y cynllun yn dod i rym ym Medi 2022 ac yn parhau am 10 mlynedd. Pwysleisiwyd y bydd y cynllun yn gosod cyfeiriad ac ymrwymiad clir i'r Cyngor i addysg Gymraeg.

Amlygwyd mai dyma'r ail gynllun gan yr Adran Addysg sydd yn ail edrych ar y ddarpariaeth o addysg Gymraeg dros yr wythnosau diwethaf ac amlygwyd fod y Cyngor yn arwain drwy Gymru ar y defnydd o Gymraeg mewn addysg ynghyd a cyfundrefn addysg drochi.

Nododd y Pennaeth Adran fod plethiad amlwg rhwng weledigaeth ar gyfer y gyfundrefn drochi a'r cynllun uchelgeisiol hwn. Pwysleisiwyd fod y cynllun yn un uchelgeisiol a heriol ac yn gosod targedau pendant. Nodwyd y bydd hyblygrwydd y gyfundrefn drochi yn galluogi'r adran i gyrraedd y targedau.

Tywysodd y Swyddog Addysg Uwchradd drwy'r cyflwyniad gan amlinellu deilliannau'r strategaeth. Tynnwyd sylw at y cama fydd yn cael ei gwneud eu mwyn cyflawni'r strategaeth gyda'r rhan ddeiliad a oedd yn cynnwys diffinio categorïau ieithyddol ysgolion, ail-gyflwyno'r siarter iaith a sefydlu Fforwm Iaith i sicrhau trefn atebolrwydd ac gadw golwg ar y targedau. Amlygwyd yr amserlen y cyfnod ymgynghori ffurfiol.

Amlygodd yr Aelod Cabinet fod gwaith arbennig o dda yn y sir ac cydnabod y gwaith da sydd yn cael ei wneud gan ysgolion y sir.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd fod trochi yn digwydd yn ysgolion Gwynedd gan fod 100% o addysg yn gynnal drwy'r Gymraeg ac amlygwyd fod y Cyngor yn arwain drwy Gymru ar hyn. Pwysleisiwyd ei bod yn angenrheidiol fod pob plentyn yn cael ei addysgu drwy'r Gymraeg.
- Mynegwyd fod gwaith arbennig yn cael ei wneud drwy'r ysgolion ond holwyd os oes cefnogaeth ar gael i'r rheini sydd yn awyddus i addysgu o adref. Eglurwyd fod cynnydd wedi bod yn nifer y plant sydd yn cael eu addysgu o adref, ond fod y cynllun strategol yn edrych yn benodol ar ysgolion gan mai dyma gylch gwaith ynghyd a grym yr adran. Eglurwyd fod dewis gan rieni i dderbyn pecyn cefnogaeth os yn awyddus i hyrwyddo'r Gymraeg pan yn Dysgu o adref.
- Holwyd os yw'n orfodol i ysgolion ddefnyddio'r strategaeth, nodwyd fod angen bellach i ysgolion ddangos eu bod yn symud ac yn datblygu eu dynodiadau iaith.

## 9. ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Dafydd Meurig.

**PENDERFYNWYD**

Nodwyd y gwaith a’r cynnydd a wnaed yn 2020/21 yn y meysydd gwaith sy’n cael eu dwyn ymlaen yn rhanbarthol trwy Fwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi ei bod yn ofyniad statudol i gyflwyno adroddiad blynyddol i’r Llywodraeth am waith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn yn unol a Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol. Eglurwyd fod y flwyddyn hwn wedi bod yn wahanol ond fod ymroddiad y staff ar draws y rhanbarth wedi bod yn eithriadol. Amlygwyd fod y flwyddyn wedi bod yn heriol o ganlyniad i Covid 19. Nodwyd fod y bwrdd yn canolbwyntio ar bobl, yn gleifion staff a sicrhau cynnal cefnogaeth di-dor. Pwysleisiwyd fod pawb yn arwain at yr un nod sef i wneud gwahaniaeth i’r unigolion. Eglurwyd fod angen edrych ymlaen ar adfer yn dilyn covid 19.

Nodwyd fod y Llywodraeth yn dyrannu cyfran o’i harian drwy’r Byrddau Rhanbarthol, ac fod y partneriaid yn cytuno ar yr arian ar y cyd.

Sylwadau’n codi o’r drafodaeth

- Amlygwyd bellach fod nifer o byrddau rhanbarthol, a nodwyd pryder o beth fydd rôl Cynghorwyr Lleol mewn materion sydd yn effeithio trigolion eu sir. Pwysleisiwyd nad oes llawer o wybodaeth lawn o fewn yr adroddiadau a nodwyd yr angen am wybodaeth ychwanegol am brosiectau sydd a gwariant o dros £19miliwn.
- Pwysleisiwyd fod gwaith da yn cael ei wneud yn y bwrdd Rhanbarthol, amlygwyd pryder am ranbartholi rhai gwasanaethau gan fod gwahaniaethau mawr ar draws y sir. Eglurwyd fod y gweithredu yn gorfod digwydd ar lefel leol ac nid yn rhanbarthol.

## 10. GORCHYMYN DIOGELU MANNAU CYHOEDDUS : RHEOLI CŴN

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Catrin Wager.

**PENDERFYNWYD**

Cymeradwywyd cyflwyno Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus mewn perthynas â rheoli cŵn ledled y sir yn unol â’r Gorchymyn Arfaethedig a atodir ar y sail eu bod yn fodlon bydd y prawf o dan adran 59 o’r Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 wedi ei gwrdd.

Cymeradwywyd costau un tro o £30,500 i gyflwyno GDMC, ynghyd â £67,620 o gyllideb refeniw ychwanegol un tro eleni o’r Gronfa Trawsffurfio. Hefyd, cadarnhau'r flaenoriaeth gan fyddai’r gweithrediad yn cyfarch blaenoriaethau pobl Gwynedd a rhagfarnu 'bid' am £75,620 o gyllideb refeniw parhaol ychwanegol yng nghyllideb 2022/23.

Awdurdodwyd y Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol i ymgymryd â chyflwyno'r GDMC.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi yn ôl ym mis ai y bu i'r Cabinet gytuno i fynd i ymgynghoriad statudol ar y broseso o gyflwyno Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus mewn perthynas o rheoli cŵn. Eglurwyd bellach fod yr ymgynghoriad wedi cau ac fod dros 1300 o ymatebion wedi eu derbyn. Diolchwyd i bob unigolyn a gymerodd amser i ymateb a bod yn rhan o'r ymgynghoriad. Tynnwyd sylw at y prif sylwadau o'r ymgynghoriad a oedd yn cynnwys 95% o blaid gwahardd cŵn o lefydd chwarae plant, 93% o blaid gwahardd cŵn o feysydd chwarae a 99% yn credo y dylai perchnogion lanhau ar ôl i'w ci faeddu mewn mannau cyhoeddus, a'i waredu mewn ffordd gyfrifol.

Eglurwyd mai cais i symud ymlaen gyda cyflwyno y GDMC oedd yr adroddiad hwn ond eglurwyd fod yr adran yn awyddus i fynd gam ymhellach. Amlygwyd fod yr ymgynghoriad wedi amlygu fod 80% o'r ymatebwyr yn credu fod baw ci yn broblem o fewn eu cymunedau ac eglurwyd fod hyn yn tystiolaethu beth mae mwyafrif o Gynghorwyd yn clywed ar lawr gwlad. Pwysleisiwyd yr angen i weithredu felly eglurwyd fod yr adroddiad yn gofyn am adnoddau ychwanegol i wella arwyddion, darparu mwy o finiau ac i benodi dau swyddog a fydd yn cael ei cyflogi i fynd i wraidd y broblem. Eglurwyd fod rhain ym awgrymiadau gan drigolion ac felly fod yr ymgynghoriad wedi cynorthwyo i lunio'r rhaglen waith.

Nododd y Rheolwr Gwasanaethau Stryd fod baw ci yn broblem Genedlaethol ac y bydd llawer o waith yn cael ei wneud ar godi ymwybyddiaeth yn benodol ym mis Hydref.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Datganwyd gefnogaeth i'r adroddiad gan amlygu fod y problem wedi cynyddu yn ystod y cyfnod clo. Amlygwyd fod yr adroddiad yn amlygu 10 cynghorydd a ymatebodd i'r ymgynghoriad, nodwyd eu bod yn gobeithio fod y niferoedd yn uwch ond heb glicio'r bocs cynghorydd.
- Pwysleisiwyd mai problem perchnogion anghyfrifol ydi hwn ac nid y cŵn nac y Cyngor ond unigolion sydd ddim yn glanhau ar ôl eu hanifeiliaid.
- Holwyd sut mae'r adran am ddal yr unigolion, eglurwyd y bydd y swyddogion yn mynd allan i'r cymunedau tu hwnt i oriau arferol gwaith, pwysleisiwyd yn ogystal bwysigrwydd newid ymddygiad drwy ymgyrchoedd gyda mudiadau megis Cadw Cymru'n Daclus. Eglurwyd y bydd yn anodd ond nodwyd fod yr adran yn ffyddiog y byddant yn llwyddiannus dwy adnodd ychwanegol a fydd yn defnyddio cyfuniad o wahanol dechnegau.
- Mewn ymateb i gwestiwn am ddefnyddio camerâu mynegwyd fod camerâu personol wedi cael eu defnyddio mewn rhai achosion ac fod modd gosod camerâu os unigolion yn mynd a'i cŵn i'r un lle bob tro.
- Nodwyd fod y bid hwn am arian yn flaenoriaeth gan fod y weithrediad yn cyfarch blaenoriaethau pobl Gwynedd a rhag ddyfarnwyd y 'bid' am £75,620 o gyllideb refeniw parhaol ychwanegol yng nghyllideb 2022/23.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 2.30 y.h.

**CADEIRYDD**

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

**Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **07 Medi, 2021** |
| **Aelod Cabinet:** | **Cyng. Catrin Wager** |
| **Swyddogion Cyswllt:** | **Steffan Jones, Pennaeth Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol** |
| | **Huw Williams, Pennaeth Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd** |
| **Rhifau Cyswllt:** | **32402 / 32426** |

**Pwnc: ADRODDIAD HERIO PERFFORMIAD AELOD CABINET ADRAN PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL AC ADRAN YMGYNGHORIAETH GWYNEDD**

---

**Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

---

**Y RHESYMAU PAM FOD ANGEN PENDERFYNIAD**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol.

---

<u>**Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol**</u>

**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel yr Aelod Cabinet dros Priffyrdd a Bwrdeistrefol. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.

1.2 Hoffwn eich atgoffa bod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu gennyf mewn cyfarfod o Dîm Rheoli'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol, oedd hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Pwyllgor Craffu perthnasol.

1.3 Ar y cyfan, 'rwyf yn fodlon gyda pherfformiad y mesurau sydd wedi eu hadrodd arnynt. Mae cryn waith yn wynebu'r Adran er sicrhau y byddwn yn cyrraedd perfformiad ailgylchu statudol Llywodraeth Cymru erbyn 2025. Mae hefyd waith i'w wneud er cynnal safon ein ffyrdd yn wyneb gofynion pwysau ar y gyllideb. Bydd cyfle i edrych ar fesurau eraill fel byddwn yn cwblhau'r prif brosiect (Cymunedau Glan a Thaclus) ac yn edrych ymlaen at ddatblygu'r targed a llunio rhaglen weithredu.

## 2. PROSIECTAU CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2018-2023 (Blaenoriaethau Gwella)

2.1 Nodir isod cynnydd sydd wedi ei wneud hyd yma yn erbyn prosiectau blaenoriaethau gwella'r Adran. Yn gyffredinol, teimlaf fod bob prosiect ar hyn o bryd yn mynd i'r cyfeiriad cywir yn erbyn yr addewidion yr ydym wedi eu gwneud yng Nghynllun y Cyngor. Fodd bynnag, rhan bwysig o'r gwaith yw ymgysylltu â'r cymunedau er deall a chlywed beth sydd yn bwysig iddynt. Bydd y gwaith yma yn cyd-fynd â 'Cynllun Ymgysylltu Ardal Ni 2035'.

**<u>Cymunedau Glan a Thaclus</u>**

Fel rhan o'r prosiect hwn, byddwn yn cydweithio gyda thrigolion a chymunedau Gwynedd drwy ymgysylltu er mwyn datblygu Cynllun Gwireddu i gyd-fynd â'r flaenoriaeth yma gan ehangu a datblygu partneriaethau cymunedol i wella ansawdd ac edrychiad y Sir. Mae'r egwyddorion a gytunwyd arnynt i'w gweld isod.

Bwriad yr Adran yw cyd-weithio gyda thrigolion a chymunedau Gwynedd i sicrhau cymunedau glan a thaclus trwy:

1. Cyd-weithio hefo trigolion a chymunedau Gwynedd
2. Sicrhau Cymunedau glan a thaclus
3. Ble mae deunyddiau yn aros mewn defnydd cyn hired â phosib, gyda'r deheuad o ddod yn Sir ddiwastraff
4. Parchu a diogelu ein hamgylchedd arbennig.

Rhan gyntaf y prosiect hwn yw ymgysylltu â rhanddeiliaid a thrigolion Gwynedd. Bydd y gwaith hwn yn dechrau ym mis Gorffennaf 2021 drwy drefnu grwpiau ffocws, holiaduron a dulliau amrywiol eraill er sicrhau cyrraedd grwpiau, sefydliadau a thrigolion. Fel amlygais uchod, bydd y gwaith yma yn dilyn amserlen 'Cynllun Ymgysylltu Ardal Ni 2035' ond bydd yr Adran hefyd yn cychwyn ar waith ymgysylltu â staff/gweithlu. Mae tîm tasg wedi ei sefydlu gydag un cyfarfod wedi cymeryd lle.

Byddaf yn eich diweddaru ar y prosiect hwn yn fy adroddiad nesaf.

**<u>Cryfhau Cyfathrebu ac Ymgysylltu</u>**


Mae'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn weledol iawn gydag agweddau'r gwasanaeth yn cyffwrdd ar bob trigolyn trwy'r Sir. Gellir ychwanegu gwerth at waith yr Adran drwy gynlluniau cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol; er enghraifft ymgyrchoedd atal mân sbwriel neu faw ci, neu ymgyrchoedd a chanllawiau i annog ail-ddefnyddio, ail bwrpas a lleihau gwastraff. Mae hefyd yn hynod bwysig fod trigolion yn hyderus yng ngwasanaethau'r Adran a bod eu pryderon ac ymholiadau yn cael eu hymdrin â nhw'n effeithiol.

Mae'r prosiect hwn wedi cychwyn yn ddiweddar gan ddechrau drwy adolygu ein trefniadau cyfathrebu cyfredol, sefydlwyd grŵp tasg gyda chynrychiolwyr trawsadrannol (tîm Galw Gwynedd, tîm y we a'r Uned Gyfathrebu ac Ymgysylltu Corfforaethol). Y dasg gyntaf fydd mapio'r prosesau er sicrhau bod yn gywir a chyfredol. Bydd y gwaith yn cynnwys ymgysylltu ar lefel ardal a bydd pob aelod yn cael cyfle i fwydo mewn. Fel grŵp, yr ydym wedi adnabod bod angen gwell defnydd o App Cyngor Gwynedd a bydd hyn yn rhan o'r adolygiad. Byddaf yn eich diweddaru ar y prosiect hwn yn y cyfarfod nesaf.

## 2.2 Prosiectau Eraill

**Rhaglen Newid Goleuadau Stryd i LED**

Yn yr adroddiad diwethaf, nodais fod y gwaith o newid ein goleuadau stryd ac arwyddion i dechnoleg LED yn parhau. Mae'r Gwasanaeth Goleuo yn gweithio ar amnewid goleuadau stryd ac arwyddion i dechnoleg LED gyda threfniant o bylu yn ogystal. Mae'r gwaith yma'n parhau ac yr ydym yn y flwyddyn olaf o'r prosiect erbyn hyn ac yn falch o adrodd bod oddeutu 15,000 o lampau wedi eu newid gydag oddeutu 2,500 yn weddill. Ers 2015/16, rydym wedi newid dros 14,300 o oleuadau ac arwyddion stryd i dechnoleg LED. Mae'r graff isod yn amlygu lleihad yn allyriadau CO2 (Goleuadau Stryd) o ganlyniad y prosiect. Yr ydym yn rhagweld y bydd y gwaith wedi ei gwblhau erbyn diwedd mis Medi, 2021.




**Prosiect Adolygu Rheolaeth Fflyd y Cyngor**

Un elfen o'r prosiect hwn yw rheoli defnydd o gerbydau'r Cyngor. Mae'r prosiect yma yn parhau i fod ar waith ond mae oedi wedi bod gyda'r gwaith oherwydd gofynion cyfreithiol pendant sydd wedi ei osod allan mewn cyfraith cyflogaeth. 'Rwyf yn falch o adrodd ein bod erbyn hyn, gyda chymorth Gwasanaeth Adnoddau Dynol y Cyngor wedi cychwyn y drefn ymgynghori gyda'r staff. Disgwylir i'r prosiect gael ei gwblhau erbyn yr Hydref.

Elfen bwysig arall o'r prosiect rheolaeth fflyd yw di-garboneiddio'r fflyd. Mae hyn yn cyd-fynd gyda 'Blaenoriaeth Gwella 8 Cynllun y Cyngor 2018-23 - Ymateb i'r Argyfwng Newid Hinsawdd'. Yr ydym wedi ymrwymo i gymryd camau pendant i leihau allyriadau carbon ac ymdrechu am ddyfodol ddi-garbon sydd yn cynnwys edrych am ffyrdd arloesol.

Yr ydym wedi cynnal adolygiad o holl gerbydau'r Cyngor gyda chymorth Llywodraeth Cymru ac yn brysur yn llunio rhaglen weithredu. Byddwn yn edrych ar gyfleon o ychwanegu at ein fflyd fechan o gerbydau trydan ynghyd ac uchafu pwyntiau gwefru o fewn ein depo a swyddfeydd ac mae grant o £300k wedi ei dderbyn ar gyfer yr elfen yma. Bydd y gwasanaeth casglu hefyd yn gweld cerbyd casglu ysbwriel trydan yn cael ei dreialu o fewn y Sir.

Mae'r Pennaeth Adran hefyd yn eistedd a'r fwrdd Hwb Hydrogen Deeside sydd yn bwysig iawn wrth ystyried technoleg amgen yn y maes cerbydau trwm megis cerbydau gwastraff a cherbydau graeanu.

Byddaf yn cyflwyno mwy o wybodaeth yn ein cyfarfod nesaf.

**Prosiect Caeau Chwarae**

Rydym yn gwybod bod meysydd chwarae yn bwysig i blant, rhieni a gofalwyr plant ond oherwydd bod offer chwarae'n ddrud ac arian yn hynod brin, mae eu cynnal mewn modd sy'n ddiogel i blant a phobl ifanc allu eu mwynhau yn heriol. Mae'r Adran yn ail afael â'r prosiect hwn gan ddiweddaru'r gwaith a wnaethpwyd hyd at fis Mawrth, 2020. Mae'r prosiect yma yn edrych ar ddiddordeb Cynghorau Cymuned/Tref neu gymuned/grwpiau o edrych ar ôl a rhedeg caeau chwarae plant.

Mae'r Adran eisoes wedi llythyru â chynghorau cymuned am eu sylwadau cychwynnol ond bu oedi oherwydd yr argyfwng, erbyn hyn mae'r Gwasanaeth wedi ail-afael yn y trafodaethau. Bydd yr Adran hefyd yn cysylltu â grwpiau a phartneriaid eraill o fewn y gymuned byddai â diddordeb partneriaethu gyda'r gwasanaeth. Mae risg i'r prosiect yma gan ar hyn o bryd ond oddeutu 5 Cyngor Cymuned sydd wedi dangos diddordeb i gynnal trafodaethau pellach. O ganlyniad bydd y Gwasanaeth yn agor trafodaethau gyda grwpiau/diddordeb cymunedol ac yn edrych ar gyfleon o gydweithio yn hytrach na throsglwyddo'r cyfrifoldeb yn ei gyfanrwydd. Yr ydym o'r farn bydd adnodd caeau chwarae yn flaenoriaeth gan ein trigolion wrth symud allan o'r cyfnod argyfwng. Mae'r Gwasanaeth wedi gweld toriadau sylweddol ac mae wir angen buddsoddi yn y cyfarpar erbyn hyn. Drwy agor y trafodaethau gydag eraill, yr ydym yn rhagweld cyfleon yn codi er denu grantiau.

## 3. PERFFORMIAD

3.1 Mae'r flwyddyn olaf wedi bod yn wahanol iawn i ni gyd ac wedi ein profi i'r eithaf. Gallwn fod yn falch fodd bynnag o'r hyn sydd wedi'i gyflawni mewn amgylchiadau newydd a heriol ac mae'r Adran wedi llwyddo i sicrhau parhad eu gwasanaethau tra'n cydymffurfio â gofynion yr argyfwng. O ran mesurau'r Adran, 'rwyf yn eithaf hapus gyda'u perfformiad. Fodd bynnag, tynnaf eich sylw i'r prif faterion sydd yn codi.

3.2 Yn yr adroddiad diwethaf nodais fod y newidiadau i'r drefn newydd o gasglu gwastraff yn digwydd yn ardal Meirionnydd yn ystod diwedd y flwyddyn 2020/21, rwyf yn falch o gofnodi bod y gwaith hwn wedi ei gyflwyno ar amser a'r prosiect bellach wedi ei gwblhau ar draws y Sir.


3.3 **Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu** – fel sydd wedi ei adrodd arno yn flaenorol, mae'n hanfodol ymdrin â gwastraff mewn modd cywir os am amddiffyn ein hamgylchedd. Mae Economi sy'n hybu ail-ddefnyddio ac ailgylchu gan leihau gwastraff (Economi Gylchol) yn hanfodol wrth i ni weithio at y nod yma.

Yn ystod y flwyddyn olaf, llwyddwyd i ddenu gwerth £1.4m o arian grant er cyflawni prosiectau yn y maes yma. Nodir yma ddiweddariad ar rai o'r prosiectau sydd wedi neu yn cael sylw:

- Addasu Canolfan Ailgylchu Llandygai, Bangor gan gynnwys cyflwyno siop ail-ddefnyddio - gwaith wedi ei gwblhau ar y safle a bellach yn llawn weithredol - ein siop yn rhaglenedig i agor erbyn yr Hydref.
- Prosiect Caffi Trwsio – sefydlu rhwydwaith o siopau ar draws y Sir fydd yn gweld cyfleon i hyfforddi a thrwsio eitemau.
- Addasu Canolfan Trin Deunyddiau Caergylchu, Caernarfon – gwaith wedi ei gwblhau ac yn llawn weithredol, hyn wedi gwella safon y deunyddiau wrth eu trin.
- Prosiect darpariaeth bwyd cymunedol - yr ydym wedi darparu hybiau bwyd gydag offer pwrpasol ac mae rhain i gyd wedi eu dosbarthu erbyn hyn. Mae amryw o'r hybiau wedi derbyn tybiau ar gyfer prydau bwyd, bagiau ac offer coginio. Byddem yn adeiladu ar y cyswllt sydd wedi ei wneud yn barod er edrych ar ehangu ar gyfleon pellach.
- Prosiect Warws Werdd ar y cyd gydag Antur Waunfawr - gwaith isadeiledd ar y safle wedi ei gwblhau.
- Prosiect caffi trwsio a Phrosiect ail-ddefnyddio/eitemau swmpus - dyma gyflwyno darpariaeth ar y stryd fawr mewn sawl canolfan ar gyfer cyfleon trwsio eitemau er gallu eu hail-ddefnyddio.
- Gorffen dosbarthu'r Cartgylchu – targedu ardaloedd gwledig y Sir.

Er y cyfnod argyfwng, 'rwyf yn falch o adrodd ein bod wedi gweld cynnydd yn ein perfformiad ailgylchu sydd erbyn hyn yn ein gweld fel Cyngor yn ailgylchu 67% o wastraff y Sir.

Fodd bynnag, mae cynnydd wedi ei weld yn y gwastraff gweddilliol a gesglir sydd yn bryder ond o bosib yn ddisgwyliedig. Mae'r graff yma yn amlygu'r sefyllfa gan gymharu â phwysau gweddilliol am yr un cyfnod yn 2020. Bydd angen cadw golwg ar y sefyllfa dros y flwyddyn gyfredol.



Yr ydym yn delio ac oll o ddeunyddiau ailgylchu a gesglir ar draws y Sir gan eu didoli a phecynnu i'w hanfon i gael eu prosesu. Mae'r tabl isod yn rhoi syniad o bwysau o ddeunyddiau ailgylchu a gesglir o'r ffrwd gwastraff tai.

| Deunydd | Tunelli 2020/21 | I ble mae'n mynd | Y broses ailgylchu |
|---|---|---|---|
| Gwydr | 4274.14t | Rydym yn gyrru'r gwydr a gesglir i gwmni ailgylchu Berryman yn Ne Kirby. | Mae Berryman yn arbenigo mewn dulliau newydd o ymdrin â gwydr er mwyn rhoi ail-fywyd i'r deunydd. Mae'r deunydd newydd yma'n cael ei ddefnyddio i gynhyrchu poteli/jariau newydd i gynhyrchion adeiladu, inswleiddio a llawer mwy. |
| Poteli Plastig | 1544.74t | Jayplas Recycling.<br><br>(Mae gan y cwmni yma amryw o safleoedd ar draws y DU sydd yn arbenigo mewn ailgylchu gwahanol fathau o blastigion i'r safon uchaf). | Yma, caiff y poteli plastig eu hanfon trwy system brosesu er mwyn cynhyrchu 'PET Flakes' sydd yna'n cael eu gwerthu i gwmnïau sydd yn eu mowldio er mwyn creu pecynnau bwyd newydd. |
| Papur | 3298.46t | Melin Bapuru Palm sydd wedi ei leoli ger King's Lynn. | Yma, caiff ein llwythi papur ei gyrru trwy beiriant papur newydd. Hwn yw'r peiriant mwyaf o'i fath yn y byd. Ar gyflymder o bron i 2,000m/munud mae ganddo'r gallu i gynhyrchu 400,000 tunnell fetrig o bapur newydd y flwyddyn. |
| Bwyd | 4524.9t | Safle Treulio Anerobig GwyriAD yng Nghlynnog Fawr. | Mae GwyriAD - sy'n cael ei gynnal gan Biogen ar ran y Cyngor - yn ganolfan arbenigol sy'n troi gwastraff bwyd yn ynni trydan i'r grid cenedlaethol. Mae hefyd yn cynhyrchu gwrtaith ar gyfer tir amaethyddol. |
| Caniau Dur | Cyfanswm o 570.77t o ganiau dur/alwminiwm. | EMR<br><br>(European Metal Recycling). | Caiff ein caniau dur eu prosesu yn safle EMR ger Lerpwl. Yma, mae ein caniau yn cael eu torri yn fan drwy ddefnyddio 'mega shredder' sydd â'r pŵer i ailgylchu car bob 15 eiliad. |
| Caniau Alwminiwm | | Tandom Metallurgical Recycling. | Mae Tandom yn defnyddio llinell rwygo ar gyfer ailgylchu ein caniau alwminiwm. Trwy'r llinell rwygo yma caiff ein caniau eu torri lawr i gronynnau 50mm. Yna, caiff y dur ei wahanu trwy ddefnyddio magnet. |
| Gwastraff Gardd | 3345.81t | Gwrtaith Gwynedd. | Mae'r gwastraff gwyrdd sydd yn cael ei brosesu ar safle Harri Parri/Gwrtaith Gwynedd ger Pwllheli yn cael ei droi yn gyson mewn gwynt compost. Mae rhan helaeth o'r deunydd wedi'i brosesu yn cael ei gompostio a'i ddefnyddio ar gaeau ffermwyr- gan gynnwys un Harri. |
| Gwastraff Gweddilliol | Domestig - 17966.5t<br><br>Masnachol - 3177.34t<br><br>Glanhau Strydoedd - 1197.24t<br><br>Swmpus - 265.54<br><br>Canolfannau Ailgylchu - 2323.4t | Parc Adfer. | Mae ein gwastraff gweddilliol yn cael ei brosesu yn safle Parc Adfer ar Lannau Dyfrdwy. Mae'r safle yma yn gyfleuster gwres a phŵer sy'n cynhyrchu digon o egni i bweru mwy na 45,000 o gartrefi a busnesau yn y UD. Fe sefydlwyd y safle fel rhan o Bartneriaeth Cyhoeddus-Preifat gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru i wasanaethu pum awdurdod lleol sy'n rhan o Bartneriaeth Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru. |

Mae pwysau hefyd ar yr Adran mewn perthynas â'r galw sydd am gynhwysyddion, mae'r lefelau y tu hwnt i beth ydym yn gallu ymdopi o fewn ein rhaglen/capasiti ac yn gweld rhestr aros ar hyn o bryd yn hirach na be a ddisgwylir.

**Adolygiad Ffordd Gwynedd ar y Gwasanaeth Gwastraff** - Byddwn ym mis Medi yn cychwyn ar adolygiad llawn ar y maes gwastraff a byddaf yn cyflwyno adroddiad ar gynnydd yn y prosiect yn fy adroddiad nesaf.

3.4 **Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd** - Wedi adolygiad Ffordd Gwynedd o'r gwasanaeth, mae'r drefn newydd o weithio wedi ei roi yn ei le ers y 1af o Ebrill eleni. Da yw nodi bod y gwaith yma yn llwyddiant ac wedi cyfarch y drefn hanesyddol o weithio. Yr ydym hefyd yn y broses o ddiweddaru ein Cynllun Cynnal Asedau er adlewyrchu gofynion newydd y Cod Ymarfer sydd â phwyslais ar reoli risg. Yr ydym hefyd yn ail edrych ar ein trefn cynnal ymylon ffyrdd a threfn ymdrin â chwyn a bydd yn rhan o waith adolygiad ein Cynllun Cynnal Asedau priffyrdd.

3.5 **Gwasanaeth Glanhau Strydoedd** - mae cryn bwysau ar y gwasanaeth hwn ers y cyfnod yr argyfwng lle gwelir mwy o fan ysbwriel, biniau yn llawn a phroblemau o faw ci i'w weld wedi cynyddu. Tra ein bod yn cadw ar ben y sefyllfa, 'rwyf yn rhagweld y daw materion fel hyn i'r wyneb yn y gwaith ar y prosiect 'Cymunedau Glan a Thaclus'. 'Rwyf yn falch o adrodd hefyd y bu i ni allu cynnal ymgynghoriad a'r Orchymyn Cŵn sydd i'w gyflwyno ac mae llawer o ddeunydd da wedi ei gofnodi o'r ymgynghoriad hwn.

3.6 **Gwasanaeth Profedigaeth** - drwy heriau'r pandemig Covid-19 'rwyf yn hynod falch o allu adrodd bod y Gwasanaeth Profedigaeth/Amlosgfa wedi gallu parhau i gynnig y gwasanaeth llawn i drigolion Gwynedd drwy gydol 2020/21.

3.7 **Clwy yr Onnen** - mae crynodeb o waith diweddar ar ddelio ar clwy yma fel a ganlyn:

- Archwiliad o 14,968 o goed
- 8867 o'r coed yma ar dir y Cyngor neu ymylon ffordd
- Mae 5267 o rhain yn y categori coch ac yn derbyn sylw

Cam cyntaf mewn rhaglen llawer mwy sydd wedi digwydd hyd yma. Yr ydym yn y broses o sefydlu tîm mewnol er parhau gyda'r gwaith gan yn ddilynol weithredu rhaglen o waith torri/ymdrin y coed gan hefyd raglen o ail-blannu gyda rhywogaethau addas.

3.8 **Achrediadau Bsi** - Mae'r Adran wedi llwyddo gyda throsglwyddo o Achrediad 18001 (Bsi) a chyrraedd gofynion 45001 oedd yn ofynnol i'w gwblhau cyn yr Hydrefn eleni. Mae hyn yn golygu ein bod yn cwrdd â gofynion uchel o gyflwyno gwasanaeth gyda systemau rheoli a threfniadau Iechyd a Diogelwch sydd yn cael eu monitro gan Bsi ar gyfer yr achrediad.

Mae awdit yn cael ei gario allan ddwy waith y flwyddyn er sicrhau ein bod yn cadw at y gofyn a cheir hyn ei wneud ar wahanol feysydd o fewn ein 'scope'.

Yr ydym hefyd a'r Achrediadau canlynol sef:

- Bsi 14001 – Amgylchedd
- Bsi 9001 – Safon

Yr un yw'r drefn o ran awdit lle bydd yr archwiliwr Bsi yn ymweld ar Adran ddwy waith pob blwyddyn er cynnal archwiliad manwl o'n trefniadau.

## 4. SEFYLLFA ARIANNOL/ARBEDION

4.1 Bu i'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol ddiweddu blwyddyn ariannol 2020/21 mewn sefyllfa ariannol gytbwys yn sgil derbyn grantiau gan y Llywodraeth i'w digolledu am eu gwariant ychwanegol a cholled incwm oherwydd y pandemig. Bydd adolygiad manwl o sefyllfa ariannol yr Adran yn cael ei gynnal fel rhan o'r adolygiad refeniw ddiwedd Awst ar gyfer y Cyngor gyfan, a adroddir i Gabinet 12 Hydref 2021.

4.2 A'r ddiwedd chwarter 1 o'r flwyddyn gyllidol 2021/2022 nid oes pryder mawr wedi ei amlygu ei hun. Sut bynnag, cawn well ddarlun o'r sefyllfa at ddiwedd mis Awst, dechrau Medi, fydd yn rhoi gwell ddarlun/gwir sefyllfa a hyn wedi cwblhau'r adolygiad manwl. Mae'r Gwasanaeth Casglu Gwastraff yn hanesyddol yn adnabod diffyg yn erbyn y gyllideb graidd ac un fydd angen cadw golwg arno wrth weld blwyddyn llawn o'r newidiadau diweddar yn y gwasanaeth. Yr un arall eleni yw sylweddoli effaith colli cytundeb Cynnal Tir ADRA gan fod bwlch wedi ei adnabod yn erbyn y targed incwm a oedd yn bodoli. Byddaf yn adrodd cynnydd ar y cynlluniau hyn yn fy adroddiad nesaf.

## 5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

Bydd yr Adran yn rhoi blaenoriaeth i symud y prosiectau a amlygwyd yn eu blaen gan hefyd sicrhau bod cysylltiad gwell gyda Chofrestr Risg yr Adran.

Gydag Adran sydd yn cyflwyno Gwasanaethau rheng flaen, byddwn yn parhau gyda'r nod i gyflwyno'r gwasanaeth gorau i drigolion Gwynedd.

**<u>Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd</u>**

## 6. CYFLWYNIAD

6.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel yr Aelod Cabinet dros YGC. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.

6.2 Hoffwn eich atgoffa bod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu gennyf mewn cyfarfod o Dîm Rheoli'r Adran, a oedd hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Pwyllgorau Craffu perthnasol.

6.3 Ar y cyfan, rwy'n fodlon gyda pherfformiad y mesurau rwyf yn gyfrifol amdanynt, ac yn diolch i'r Adran am eu gwaith. Rwy'n fodlon â pherfformiad yr Adran yn gyllidol. Yn sgil cyhoeddi Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru (Gorffennaf 2020) rwyf yn edrych ymlaen at ddatblygu'r Strategaeth Leol. Mi fydd hyn yn gyfle i roi blaenoriaethau a mesurau priodol mewn lle i leihau risg llifogydd a gwneud cymunedau Gwynedd yn fwy diogel.

## 7. PROSIECTAU CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2018-2023

Nid yw'r Adran yn arwain ar unrhyw brosiectau yng Nghynllun y Cyngor 2018-23. Mae'r Adran Amgylchedd yn arwain ar y Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd gyda YGC yn ei gefnogi ar faterion rheoli perygl llifogydd ac erydiad arfordirol.

Atodaf wybodaeth am y ddau risg sydd yn uchel iawn yn nhermau beth sydd yn cael ei gyflawni yn barod:

- **Risg o lifogydd o'r môr mewn ardaloedd arfordirol oherwydd effaith newid hinsawdd.**
  Mae'r Adran yn gweithio i adnabod cymunedau bregus o ran risgiau o effaith stormydd, erydiad a llifogydd arfordirol e.e. Pwllheli, Porthmadog, Dinas Dinlle a Fairbourne. Enghreifftiau o gynlluniau i leihau a rheoli risg sydd wedi ei gwblhau yn ddiweddar yw wal fôr Felinheli, yn ogystal â gwaith brys yn Abermaw a thraeth Crugan. Mi fydd y wybodaeth yma yn rhan o'r gwaith adnewyddu Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydiad Arfordirol Lleol sydd i gael ei gwblhau erbyn Hydref 2022.

- **Risg o lifogydd mewndirol oherwydd effaith newid hinsawdd.**
  Mae'r Adran yn barod yn adnabod digwyddiadau o lifogydd mewnol i dai, wedi gwneud adroddiadau. Fe all y rhain greu prosiectau penodol i leihau'r risgiau o lifogydd drwy geisio am arian gan Lywodraeth Cymru. Enghreifftiau o gynlluniau i leihau a rheoli risg sydd wedi eu cwblhau yw Llanberis (90 eiddo) a Rhostryfan (41 eiddo). Eto mi fydd ein blaenoriaethau fel Cyngor yn cael eu cynnwys yn y Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydiad Arfordirol Lleol newydd.

Mae gwaith creu Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol mewn llaw, sydd i gael ei gwblhau erbyn Hydref 2022.

## 8. PERFFORMIAD

8.1 Mae'r flwyddyn olaf wedi dod ag amgylchiadau newydd a heriol. Gallwn fod yn falch fod yr Adran wedi llwyddo i sicrhau parhad eu gwasanaethau wrth gydymffurfio â gofynion yr argyfwng, ac wedi cyflawni ei gyfrifoldebau. O ran perfformiad yr Adran, 'rwyf yn hapus.
Mae Ymgynghoriaeth Gwynedd Consultancy (YGC) yn gweithredu fel:

- Adran fasnachol sy'n dod ac incwm i'r Cyngor,
- Ymgymryd â swyddogaethau statudol ym maes dŵr a rheoli llifogydd.

Nawr tynnaf eich sylw i'r prif faterion YGC gan ddechrau hefo'r ochr fasnachol.

8.2 Gwaith Masnachol

Mae'r rhan helaeth o swyddogion yr Adran yn gweithio ar waith masnachol sy'n dod ac incwm o dros £5.7 miliwn i'r Cyngor. Mae prosiectau yn galw am arbenigaeth sawl Gwasanaeth ac mae cynllun gweithredu yn cael ei ddarparu i bob prosiect. Mae patrwm gwaith am chwarter un yn dilyn yr un patrwm gwaith a llynedd. Prif gleientiaid mae'r Adran yn gweithio iddynt yw:

| | | |
|---|---|---|
| NMWTRA | Adran Tai ac Eiddo | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Llywodraeth Cymru | Cyngor Sir Ceredigion | Cyngor Sir Dinbych |
| Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol | Adran Amgylchedd - Trafnidiaeth a Gofal Stryd | Griffiths |

8.2.1 Cymeraf y cyfle yn yr adroddiad hwn i amlygu enghraifft o gynllun sylweddol mae YGC yn gweithio arno sef y cynllun A55 Aber - Tai'r Meibion a fydd wedi ei gwblhau erbyn Haf 2022. Mae'r contractwr, sef Griffiths, wedi eu penodi gan Lywodraeth Cymru i ymgymryd â gwaith gwella ar yr A55 yn Abergwyngregyn. Mae'r Adran yn cyflawni rôl Asiant y Cyflogwr ar ran Llywodraeth Cymru. Bydd y cytundeb Dylunio ac Adeiladu yn gwella diogelwch ar hyd pellter o 2.2km o'r ffordd ddeuol, rhwng Cyffordd 12 a 13, drwy gael gwared ar fannau mynediad uniongyrchol ar yr A55. Boddhaol yw gweithio ar brosiect sydd yn cynnwys dros bedwar cilomedr o gyfleusterau teithio llesol gwell, i annog beicio, cerdded, a chefnogi egwyddorion cymdeithas garbon isel. Hefyd o gofio'r llifogydd hanesyddol mae'n braf adrodd y ddarpariaeth gwaith atal llifogydd a chreu gwytnwch i'r A55.

8.2.2 Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r tîm amgylcheddol wedi bod yn gweithio ar sawl cynllun priffyrdd mawr, fel Ffordd Fynediad Newydd Llanbedr. Maent wedi cynnal sawl arolwg rhywogaethau gwarchodedig i sicrhau bod y cynefin naturiol yn cael ei warchod, ynghyd â darparu mesurau gwella amgylcheddol ar gyfer y ddau gynllun.

8.2.3 Mae'r tîm llifogydd wedi adeiladu eu model afon fwyaf hyd yma ar gyfer y Bont Bodfal newydd. Mae'r model llifogydd yn llywio asesiad llifogydd a dyluniad y bont bwa, a sicrhaodd nad oedd y gwaith newydd yn cynyddu'r risg o lifogydd i unrhyw eiddo. Mae'r timau risg llifogydd ac amgylcheddol yn darparu cyfraniad sylweddol at ddatblygu prosiectau newydd i sicrhau nad oes unrhyw brosiectau yn cael effaith niweidiol ar ein hamgylchedd naturiol.

8.2.4 Mae'r Adran yn rhoi blaenoriaeth uchel i hyfforddiant staff. Mae'r Adran yn arwain yn Rhanbarthol ar Gytundeb Hyfforddi Proffesiynol Rhanbarthol Gogledd Cymru ar waith peirianyddol drwy sefydliad ICE (Institution of Civil Engineers). Ar hyn o bryd mae 7 swyddog dan hyfforddiant. Mi fydd hyn yn ein galluogi i ddatblygu eu sgiliau a'u gallu i weithio ar gynlluniau mwy heriol. Mae cefnogaeth gref i swyddogion sydd gyda'r deheuad â'r gallu i ennill cymwysterau proffesiynol. Mae'r staff hefyd yn ymwybodol fod cymwysterau proffesiynol yn allweddol i ddenu a churo gwaith.

8.3 Ymgymryd â swyddogaethau statudol ym maes dŵr a rheoli llifogydd.

8.3.1 O ganlyniad i Newid Hinsawdd, mae bygythiadau erydiad arfordirol a llifogydd yn gwaethygu. Ein bwriad, lle fydd yn bosib, yw rheoli a lleihau effeithiau'r bygythiadau hyn ar bobl Gwynedd. Mae hefyd deddfwriaethau cenedlaethol yn gosod cyfrifoldebau statudol ar y Cyngor. Yn unol ag amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), mae'n hanfodol ein bod yn blaengynllunio i gadw'n cymunedau yn ddiogel, yn iach ac yn hyfyw i'r dyfodol. Mae newid hinsawdd yn creu heriau penodol, ac mae'r maes llifogydd wedi ei gydnabod fel maes blaenoriaeth yn rhyngwladol.

8.3.2 Daw heriau newid hinsawdd â phwyslais ychwanegol ar ein gallu i fod yn rhagweithiol yn y maes llifogydd. Hoffwn ddiolch i'r Adran am y gwaith sydd eisoes wedi ei wneud i baratoi ac ymdrin â'r heriau hyn er mwyn ceisio sicrhau cymunedau saff a ffyniannus yng Ngwynedd i'r dyfodol. Byddaf yn parhau i weithio gyda'r Adran i gynnal trafodaethau priodol gyda rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys Llywodraeth Cymru, cynghorau cymuned, ac eraill megis y sector breifat a'r trydydd sector.

8.3.3 Mae system i reoli asedau llifogydd wedi ei ddatblygu ar y cyd â gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth y Cyngor sy'n galluogi'r Adran i storio'r holl ddata asedau, ynghyd â data ynglŷn â digwyddiadau llifogydd i gyd mewn un system.

8.3.4 Mae mwy na 200 o asedau i archwilio yn y flwyddyn 2021/22. Ar hyn o bryd mae 95 wedi eu harchwilio ers 1af o Ebrill 2021, gyda'r dyddiad targed i gwblhau'r cyfan erbyn 31 Awst 2021. Felly fyddwn yn gwybod cyflwr ein hasedau er mwyn rhaglennu gwaith cynnal sydd ei angen.

8.3.5 Mae ymchwilio i ddigwyddiadau o lifogydd yn ddyletswydd arnom o dan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr. Nid oes dim digwyddiad o lifogydd mewnol wedi digwydd ers y 1af o Ebrill. O'r 101 o ddigwyddiadau llifogydd mewnol a gafodd eu hadrodd 2020/21, mae'r gwasanaeth wedi ymchwilio i bob un ohonynt. Rydym hefyd yn casglu gwybodaeth wrth ddarganfod diffygion, neu dderbyn unrhyw bryderon gan drigolion Gwynedd sy'n gysylltiedig â llifogydd. Ein nod yw ymateb i'r rhain yn yr amser byrraf posib.

8.3.6 Mae gwaith cymeradwyo ceisiadau Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) yn parhau yn dda gyda nifer o geisiadau chwarter cyntaf 2021/22 bron yn ddwbl i beth oedd wedi eu derbyn yn chwarter cyntaf yn 2020/21. I'r dyfodol, byddwn yn edrych ar strwythur yr Adran er mwyn sicrhau y bydd y gwasanaeth yn cael ei gynnal fel mae'r niferoedd yn cynyddu.

8.3.7 Fairbourne. Mae'r ddogfen Fairbourne: Fframwaith i'r Dyfodol wedi ei chyhoeddi ers Hydref 2019. Mae cyflawni gwaith y fframwaith, yn hynod o anodd a chymhleth, ac wedi ei rhannu i 5 ffrwd gwaith sydd gyda chynlluniau unigol. Y ffrydiad gwaith yma yw:

- Cynllun Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol (FCERM)
- Cynllun Pobl a'r Amgylchedd Adeiledig
- Cynllun Rheoli'r Isadeiledd
- Cynllun Cefnogi Busnesau
- Cynllun Amgylchedd Naturiol

Mae Covid19 wedi effeithio'r rhaglen waith, a nawr mae YGC yn adolygu'r ddogfen. Mae Bwrdd Prosiect Fairbourne Symud Ymlaen yn cynnwys cyrff canlynol; Cyngor Cymuned Arthog (Cadeirio), Cynghorydd Lleol Gwynedd, Cyngor Gwynedd Scottish Power, CNC, Llysgennad Cymunedol x 2, Network Rail, Bwrdd Iechyd a Dŵr Cymru.

Mi fydd yr Adran yn parhau i gynnig cefnogaeth i'r gymuned a'r Cyngor Cymuned er mwyn deall y gwir anghenion a'r dyheadau er mwyn symud i'r dyfodol i allu cynnal sgyrsiau dwy ffordd. Dwi'n falch bod yr Achos Busnes Amlinellol Strategol yn symud ymlaen i fod yn edrych i mewn i ddichonoldeb gwahanol opsiynau i gefnogi'r gymuned. Bydd yr achos busnes yn rhan greiddiol o'r broses o adolygu'r ddogfen Fframwaith gan y bydd yn cynnig nifer o atebion i'r cwestiynau a ofynnwyd yn sgil cyhoeddi'r Fframwaith i'r dyfodol. Mae'r Adran yn parhau i weithio ar gael Llywodraeth Cymru i gydweithio gyda'r Bwrdd Prosiect gan fod nifer o benderfyniadau yn sgil dyfodol Fairbourne tu hwnt i'r cyrff cyhoeddus.

8.3.8 Yn ystod y flwyddyn ariannol yma, mae'r **Gwasanaeth Llifogydd** yn cwblhau cynlluniau atal llifogydd a fydd yn gostwng y risg i dai, yn ardaloedd fel Tremadog. Yn ychwanegol, mae’r Gwasanaeth Llifogydd yn gweithio ar 9 o geisiadau busnes er mwyn denu buddsoddiad i gyflawni mwy o brosiectau lliniaru llifogydd gan gynnwys Abermaw, Hirael, Dalgylch Ogwen. Mae bwriad i gwblhau'r prosiectau yma dros 3-4 blynedd nesaf. Yn ogystal, mae'r Gwasanaeth yn gweithio ar y cyd gyda’r Adran Briffyrdd a Bwrdeistrefol i gyflawni 11 prosiect ar raddfa fach, sydd yn gostwng y risg o lifogydd i dros 50 o dai. Mae’r grŵp prosiect yn parhau i weithio ar ddull blaenoriaethu er mwyn gallu cwblhau'r Strategaeth Rheoli Perygl llifogydd ac Erydu Arfordirol Lleol newydd yn ystod y flwyddyn gyllidol yma. Byddaf yn eich diweddaru ar ddatblygiad y gwaith yma i’r dyfodol.

**9. SEFYLLFA ARIANNOL/ARBEDION**

9.1 Mae'r Adran wedi cyflawni eu cynlluniau arbedion effeithlonrwydd hanesyddol.

9.2 Ar ddiwedd Chwarter 1 o flwyddyn gyllidol 2021/22, mae proffil gwaith sydd wedi ei rhaglennu yn gyson gyda phroffiliau’r blynyddoedd blaenorol. Ar hyn o bryd mae gwaith digonol ar gael gan ein cleientiaid am weddill y flwyddyn, ac felly ar hyn o bryd ni weler risgiau o beidio â chyrraedd ein targed cyllidol. Mae’r Adran yn amcangyfrif elw o £26,065 yn uwch na’r targed a osodwyd ar ein cyfer am 2021/22.

**10. CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

Parhau i weithredu a rheoli’r Adran gyda chydblethiad agosach rhwng y gofrestr prif risgiau, a’r gwaith dydd i ddydd gyda’r nod o uchafu perfformiad yr Adran i gyflwyno’r gwasanaeth gorau i drigolion Gwynedd.

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Pennaeth Cyllid:**

Mae'r prosiect adolygu Rheolaeth Fflyd o fewn Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, ond mae'n rhy gynnar eto i amcangyfrif yr adnoddau ychwanegol fydd ei angen i wireddu hyn. Gallaf gadarnhau bod y Cyngor wedi derbyn grant o £300,000 eleni ar gyfer strategaeth di-garboneiddio'r fflyd. Mae Prosiect Caeau Chwarae yn rhan o gynllun arbedion gwerth £210,000 sydd angen ei gyflawni erbyn 2022/23. Nodir ym mharagraff 3.2 bod y prosiect o gyflwyno trefn newydd o gasglu gwastraff ar draws y Sir wedi ei gwblhau bellach, ond rhaid cydbwyso hyn efo'r rhybudd clir sy'n cael ei roi ym mharagraff 4.2 ble rhagwelir gorwariant o fewn y gwasanaeth casglu gwastraff unwaith eto eleni.

Mae'r adroddiad yn cydnabod bod yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn gweithio tuag at gyflawni arbedion ar hyn o bryd, ond mae dal gwaith i'w wneud cyn bod yr holl arbedion hanesyddol yn cael eu gwireddu. Mae'n gynamserol ehangu ar y sefyllfa ariannol cyffredinol sy'n cael ei adrodd yma, ond bydd adolygiad manwl o sefyllfa ariannol yr Adran yn cael ei gynnal fel rhan o'r adolygiad refeniw ddiwedd Awst ar gyfer y Cyngor gyfan, gydag adroddiad i gyfarfod y Cabinet ar 12 Hydref 2021.

Yn unol â pharagraff 8.2, cadarnhaf fod rhan helaeth o swyddogion Ymgynghoriaeth Gwynedd yn gweithio ar waith masnachol sy'n dod ag incwm o dros £5.7 miliwn i'r Cyngor. Cadarnhaf yn ogystal bod yr Adran honno wedi cyflawni eu cynlluniau arbedion effeithlonrwydd hanesyddol. Mae'r ffigwr elw uwchlaw'r targed sy'n cael ei ddyfynnu ym mharagraff 9.2 yn cyfateb i'r sefyllfa ar ddiwedd mis 2, sef yr wybodaeth fwyaf cyfredol ar y pryd.

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

**Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **7 MEDI 2021** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Gareth Wyn Griffith** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Dafydd Wyn Williams - Pennaeth Adran yr Amgylchedd** |
| **Rhif Cyswllt:** | **32371** |
| **Pwnc:** | **ADRODDIAD HERIO PERFFORMIAD AELOD CABINET AMGYLCHEDD** |

**Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

**Y RHESYMAU PAM FOD ANGEN PENDERFYNIAD**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol

## 1. CYFLWYNIAD YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel yr Aelod Cabinet dros Amgylchedd. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.

1.2 Hoffwn eich atgoffa bod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu gennyf mewn cyfarfod o Dîm Rheoli'r Adran Amgylchedd, oedd hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau.

1.3 Ar y cyfan, rwyf yn fodlon gyda perfformiad yr adran ac yn cydnabod yr heriau sydd wedi wynebu'r adran hon dros y flwyddyn ddiwethaf a'r effaith y mae hynny wedi'i gael ar rai gwasanaethau. Fodd bynnag, rwy'n hyderus fod yr adran yn cadw golwg ar y materion hyn ac yn cynllunio'n briodol ar gyfer adfer y sefyllfa. Byddaf yn ymhelaethu ar y cynnydd yn yr adroddiad.

## 2. PROSIECTAU CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2018-2023

### 2.1 Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd

Yn dilyn penderfyniad y Cabinet yn ôl ym mis Ionawr i ariannu rheolwr prosiect i arwain ar y gwaith o gydlynu ymdrechion y cyngor yn y maes a'r cynllun gweithredu, mae penodiad wedi'i wneud a Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd wedi cychwyn yn y rôl

ddechrau Gorffennaf. Y flaenoriaeth fydd i fabwysiadu rhaglen waith ar gyfer gweddill 2021, ac mae cyfarfod o'r Bwrdd Newid Hinsawdd eisoes wedi ei gynnal ddiwedd Gorffennaf i ail afael yn y maes gwaith ar fyrder. Bwriedir cynnal gweithdai â holl aelodau'r Cyngor yn fuan, gyda'r bwriad o fabwysiadu Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd cyn diwedd 2021. Byddaf yn eich diweddaru ymhellach yn fy adroddiad nesaf.

2.2 **Capasiti Gwarchod y Cyhoedd**

Mae'r adran yn edrych ar gynlluniau ar gyfer ceisio darparu gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd mwyn gwydn ar gyfer y dyfodol er mwyn cyfrannu tuag at warchod iechyd cymunedau Gwynedd a chefnogi busnesau. Mae'r gwaith yma'n cynnwys edrych ar geisio cadw'r arbenigedd sydd gennym yn y Gwasanaethau, creu strwythurau staffio mwy cadarn fydd angen cynnwys parhad o'r gwaith olrhain, cynyddu capasiti, a chynllunio ar gyfer dilyniant i'r dyfodol. Bwriedir cyflwyno adroddiad ar hyn i'r Tîm Arweinyddiaeth / Cabinet ar ôl yr haf 2021.

2.3 **Risgiau eraill**

Credir fod angen tynnu sylw at fater ychwanegol sydd erbyn hyn wedi ei adnabod yng nghofrestr risg yr adran, sef y rheolaeth o gartrefi modur. Mae'r adran yn arwain ar ddarn o waith trawsadrannol, i geisio ymateb i'r heriau mae'r cynnydd sylweddol yn y nifer o gartrefi modur sydd yn ymweld a'r sir wedi eu cyflwyno dros y flwyddyn a hanner ddiwethaf. Mae hyn wedi cynnwys ymateb byr dymor sydd wedi ei bod yn gymysgedd o waith gorfodaeth (lle'n bosib), codi arwyddion mewn lleoliadau ar draws y Sir, cyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth ac ati o'r angen i ymwelwyr barchu'r ardal a gwneud trefniadau o flaen llaw cyn ymweld (e.e. archebu llain mewn maes carafanau trwyddedig. Yn ychwanegol i hyn mae'r adran yn arwain ar ddarn o waith ymchwil i'r sector cartrefi modur ac yn ddiweddar wedi mynd allan i ymgynghoriad cyhoeddus drwy holiadur i ganfod barn cymunedau Gwynedd. Mae'r holiadur yn agored hyd at diwedd Awst 2021 a bydd yr ymatebion yn cael eu dadansoddi a'u hymgorffori'n rhan o'r gwaith ymchwil.

**3. PERFFORMIAD**

Isod, rwy'n amlinellu'r prif faterion sydd yn deillio o berfformiad yr adran yn Chwarter 1 2021/22. Nid yw'r wybodaeth yn cyfeirio at bob gwasanaeth yn yr adran, dim ond y rhai hynny y teimlwn fod angen tynnu eich sylw atynt.

**Gwasanaeth Cynllunio**

3.1 Nid oes modd i mi adrodd ar ein mesurydd arferol sy'n dangos ***bodlonrwydd gyda'r gwasanaeth*** (C1). Mae hyn oherwydd nad yw'r holiaduron gofal cwsmer wedi eu cynnal ers dechrau cyfnod y pandemig gan ein bod wedi blaenoriaethu parhad gwasanaethau ddydd i ddydd. Fodd bynnag, mae gwaith yn mynd yn ei flaen i geisio datblygu dulliau gwell ar gyfer cynnal y gwaith yma, a gobeithiaf adrodd ar y mesurydd unwaith eto yn fy adroddiad nesaf.

3.2 Soniwyd yn Adroddiad Blynyddol yr adran ei bod wedi bod yn cymryd mwy o amser i ni gyrraedd penderfyniadau o ganlyniad i ffactorau amrywiol gan gynnwys effaith y pandemig ar bwyllgorau, diffyg capasiti oherwydd salwch hirdymor neu drefniadau gweithio'n ystod yr argyfwng ac oedi mewn derbyn ymatebion gan ymgynghorai statudol. Mae'r mesurydd ***Pa mor sydyn mae'r holl geisiadau Cynllunio ar gyfartaledd wedi cymryd i'w penderfynu*** (C2) yn parhau i gynyddu ac yn uwch na'r cyfartaledd o 63 diwrnod yn 2019/20, 68 diwrnod yn 2020/21, gyda'r cyfartaledd ers 1af o Ebrill 2021 yn 93 diwrnod. Mae'r adran wedi ceisio cyfarch hyn drwy recriwtio dau swyddog dros

dro am gyfnod o flwyddyn, ac rwyf wedi gofyn i'r Adran edrych ar yr adnoddau fydd eu hangen i'r dyfodol ar gyfer cwrdd â'r galw am y gwasanaeth.

3.3 Gwelwyd cynnydd ym mis Ebrill yn y nifer o **achosion gorfodaeth cynllunio** a dderbyniwyd o gymharu â'r misoedd cynt, a daeth cyfanswm o 88 o gwynion newydd yn ymwneud â thor-reolaeth cynllunio i law yn ystod Chwarter 1 2021-22. Llwyddwyd i ymchwilio i 29 o achosion, ac mae hyn yn llai nag y byddem fel adran wedi'i obeithio mewn cyfnod o dri mis. Roedd hyn o ganlyniad i ostyngiad yng nghapasiti'r uned i ddelio â'r cwynion o ganlyniad i drosglwyddo swyddog llawn amser i ddelio â cheisiadau cynllunio. Gobeithir y gall un o'r swyddogion dros dro helpu gyda'r gwaith am gyfnod dros dro yn unig.

3.4 Wrth gwrs, mae'r nifer sylweddol o dai yng Ngwynedd sydd yn cael eu defnyddio fel cartrefi gwyliau (ar gyfer llety gwyliau byr dymor ac ail gartrefi) yn bryder mawr gyda'r sgil effeithiau'n cynnwys cynnydd mewn prisiau tai sydd yn rwystr sylweddol i drigolion lleol fod yn gallu byw yn eu cymunedau. Gan fod yr argyfwng tai yn un o brif flaenoriaethau'r Cyngor, comisiynwyd gwaith ymchwil ar gartrefi gwyliau gan y Cabinet er mwyn hel tystiolaeth i weld beth oedd yn bosib i'w wneud i reoli'r sefyllfa'n well. Cyhoeddwyd y gwaith ymchwil "Rheoli'r defnydd o dai fel cartrefi gwyliau" a gynhaliwyd gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd yn Rhagfyr 2020. Credaf fod hwn yn ddarn o waith arwyddocaol sydd wedi ysgogi trafodaethau ac ymateb ar lefel genedlaethol i'r materion o gwmpas cartrefi gwyliau.

3.5 Hefyd, mae'r gwaith ymchwil a gyhoeddwyd ar ôl gwaith ymchwil y Cyngor sef " Ail Gartrefi – Datblygu Polisïau Newydd yng Nghymru" gan y Dr Simon Brooks, yn cyfeirio at ac yn ymateb i'r dystiolaeth a'r argymhellion yn y gwaith ymchwil gan y Cyngor. Yn fwy diweddar mae gwaith ymchwil y Cyngor wedi ei gydnabod gan Lywodraeth Cymru sydd erbyn hyn wedi datgan eu bwriad i roi camau mewn lle i hwyluso rheolaeth gwell o gartrefi gwyliau, gyda'r bwriad o dreialu mesurau mewn ardaloedd peilot gyda ardal yng Ngwynedd yn debyg o fod yn rhan o hyn.

3.6 Bydd canfyddiadau'r gwaith ymchwil cartrefi gwyliau (yn ogystal ac unrhyw dystiolaeth arall berthnasol) yn bwydo i mewn i'r broses o adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

**Gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu**

3.5 Yn chwarter 1af 2021/2022 gwelwyd cynnydd mewn ceisiadau rheolaeth adeiladu, gyda 221 o geisiadau'n cael eu cyflwyno o'i gymharu â 132 yn yr un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn golygu cynnydd yn y ffioedd sy'n cael eu denu i'r cyngor. Fodd bynnag, mae'r prosiectau arwyddocaol, sy'n codi mwy o ffi, yn parhau i fod yn isel. Mae Arolygydd Cymeradwy preifat wedi'i sefydlu yn y sector yn ddiweddar ac felly mae'r gystadleuaeth leol wedi cael effaith negyddol ar y nifer o geisiadau sy'n ein cyrraedd ni. Mae hyn yn golygu bod cyfran y farchnad o geisiadau rheolaeth adeiladu a dderbyniwyd wedi gostwng o **85%** yn 2020/2021 i **80%** ar hyn o bryd. Nodir hefyd yn ystod y misoedd diwethaf fod tystiolaeth o'r Gwasanaeth yn colli swyddogion i'r sector breifat, ac yn sgil hyn mae'r adran edrych ar strwythur y Gwasanaeth o ran gwydnwch, a natur y gwaith o ran gwaith sydd yn denu ffioedd a gwaith sydd ddim (e.e. gwaith gorfodaeth.

3.6 Mae'r canran o benderfyniadau a wnaethpwyd i'r amserlen statudol hefyd wedi gwella o'i gymharu â ffigwr cyfartalog y flwyddyn flaenorol (97.5% o'i gymharu â 92.1%). Mae deall y feddalwedd Rheolaeth Adeiladu newydd wedi cynorthwyo'r syrfewyr i gyflawni'r gwelliant yma a'r nod yw i gwrdd â'r terfynau amser statudol hyn mewn 100% o achosion.

3.7 Mae'r amser a gymerir ar gyfartaledd i brosesu cais 'Enwi a rhifo tai/stryd' wedi gostwng yn sylweddol, gan gymryd 8 diwrnod ar gyfartaledd yn ystod Chwarter 1 2021/22 o'i gymharu â 21 diwrnod ar gyfartaledd yn ystod 2020/21. Mae hyn o ganlyniad i welliannau i'r system ac yng nghyflymder ymatebion ymgynghori'r Post Brenhinol wrth gadarnhau cofrestriad.

**Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd**

3.8 Oherwydd ymdrechion y gwasanaeth yma i ymateb i'r pandemig, nid yw'r gwaith o fesur y ***canran o gwsmeriaid a ymatebodd i arolwg yn dweud eu bod yn fodlon a'r lefel gwasanaeth*** wedi'i gwblhau'n ddiweddar. Gobeithiaf adrodd ar hyn yn fy adroddiad nesaf.

3.9 Ni fu arolygiad chwaith o'r busnesau bwyd uchel eu risg yn ystod Chwarter 1 2021/22. Mae'r rhaglen archwiliadau wedi ei atal ers cychwyn y pandemig oherwydd bod amser staff wedi ei flaenoriaethu i ganolbwyntio ar waith atal lledaeniad Covid-19. Mae'r archwiliadau bellach wedi ailddechrau, gan flaenoriaethu busnesau newydd a busnesau risg uchel yn y lle cyntaf yn unol â chyfarwyddyd yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

3.10 Gwelwyd cynnydd yn **yr amser a gymerir ar gyfartaledd i brosesu cais am drwydded tacsi** o 10 diwrnod yn 2020/21 i 15 diwrnod yn Chwarter 1 2021/22. Mae hyn o ganlyniad i nifer o resymau'n cynnwys oedi wrth i unigolion geisio cael tystysgrif archwiliad meddygol, datgeliad a thystysgrifau DBS, yn ogystal â phroblemau mewnol megis diffyg capasiti oherwydd salwch ac anawsterau gyda threfniadau'r post yn y cyfnod hwn.

**Gwasanaeth Rheoli Rhwydwaith**

3.11 Mae'r Gwasanaeth yn gyfrifol am weithredu trefniadau gorfodaeth parcio ar draws y Sir ac mae'r cyfnod ers y cyntaf o Ebrill 2021, fel y 12mis cyn hynny, wedi bod yn hynod o heriol, yn sgil nifer y bobl sydd yn ymweld â'r ardal yn eu cerbydau, ond hefyd yn sgil enghreifftiau o ymddygiad annerbyniol tuag at swyddogion. Mae'r Gwasanaeth wedi cyflogi 2 swyddog ychwanegol dros dro i geisio cefnogi'r ymdrechion i sicrhau fod cerbydau'n cael eu parcio yn ddiogel ac yn unol ac unrhyw gyfyngiadau cyfreithiol sydd mewn lle. Mae'r mesurydd ar gyfer parcio yn ymwneud a ***nifer o apeliadau a gyflwynwyd i'r beirniaid annibynnol sydd yn cael eu caniatáu***. Mae'r gwaith mae'r Gwasanaeth wedi ei wneud o ran arwyddion a chasglu tystiolaeth, mae'n debyg yn sail i'r ffaith fod apeliadau wedi lleihau dros y blynyddoedd diwethaf, gydag ond 2 apêl yn ystod y 3 mis diwethaf a'r penderfyniad ar y ddau yn ffafriol i'r Cyngor.

3.12 Yn dilyn adolygiad o strategaeth a ffioedd meysydd parcio'r cyngor, daeth y ffioedd newydd a gytunwyd arnynt gan y Cabinet ym mis Chwefror 2021 yn weithredol ar 30 Mehefin 2021. Yn anffodus, mae'r gwasanaeth wedi derbyn nifer o gwynion am ffioedd Arhosiad Hir (Band 2) ers hynny ac yn dilyn ystyried yr adborth yn llawn, mae'r gwasanaeth yn bwriadu ychwanegu dau ffi ychwanegol i dariff y meysydd hyn, sef £1 am ddwy awr a £2 am bedair awr. Bwriedir i'r ffioedd hyn fod yn weithredol cyn diwedd Gorffennaf.

**Gwasanaeth Cludiant a Diogelwch y Ffyrdd**

3.13 Yn gyffredinol mae defnydd y cyhoedd o wasanaethau Cludiant Cyhoeddus yn sylweddol is, ac o'r adborth yr ydym yn ei dderbyn y rheswm tu cefn i hyn yw hyder i fod yn cymysgu gydag eraill ar y daith yng nghyd-destun y pandemig COVID. Mae cyfyngiadau ar y niferoedd all deithio ar fws yn ogystal ag angen i gadw ffenestri yn agored a gwisgo gorchudd wyneb. Mae'r Adran yn cydweithio gyda darparwyr Cludiant Cyhoeddus yn ogystal â chyrff eraill i geisio ail-sefydlu hyder teithwyr a

galluogi'r rhai mwyaf bregus yn ein cymunedau gael y rhyddid i fyw yn annibynnol unwaith eto. Mae'r sylwadau a dderbynnir o ran bodlonrwydd defnyddwyr cludiant cyhoeddus, yn helpu'r Gwasanaeth i ymateb yn uniongyrchol neu drwy dynnu'r mater i sylw'r darparwr perthnasol i ymateb lle bo angen.

**Gwasanaeth Cefn Gwlad**

3.14 Yn dilyn adolygiad Ffordd Gwynedd y gwasanaeth, mae adnabod mesuryddion wedi bod yn heriol ond mae gwaith ar wahanol elfennau yn parhau. Gobeithiaf fedru eich diweddaru yn fy adroddiad nesaf.

**Gwasanaeth Olrhain**

3.15 Ers mis Mehefin eleni, mae'r gwasanaeth yma yn sicrhau cydymffurfiaeth trigolion Gwynedd â deddfwriaeth wrth iddynt ddychwelyd o dramor, yn ogystal â delio ag achosion positif a chysylltiadau o fewn y sir.

3.16 Yn ogystal, mae'r gwasanaeth bellach yn cyflogi tri Swyddog Ymgysylltu Cymunedol Covid i weithio gyda'n cymunedau i ymgysylltu ac addysgu trigolion a pherchnogion busnes ynghylch cydymffurfiaeth a'r Ddeddf Covid-19. Mae'r swyddogion eisoes wedi ymweld â dros 300 o fusnesau ac wedi sicrhau presenoldeb wrth giât bob ysgol yn ogystal â phatrolio'r holl drefi a phentrefi mawr yn rhannu gwybodaeth hanfodol i atal lledaeniad. Rwy'n falch o ddweud fod rolau'r swyddogion yma'n cael eu gwerthfawrogi ymhob lleoliad a gan fusnesau sy'n croesawu eglurder o dan amgylchiadau anodd.

## 4. SEFYLLFA ARIANNOL/ARBEDION

4.1 Bu i'r Adran Amgylchedd danwario £100k ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2020/21. Bydd adolygiad manwl o sefyllfa ariannol yr adran yn cael ei gynnal fel rhan o'r adolygiad refeniw ddiwedd Awst ar gyfer y Cyngor gyfan, a adroddir i Gabinet 12 Hydref 2021. Ni ragwelir unrhyw faterion materol i'w hadrodd hyd yn hyn.

4.2 Mae gan yr adran 3 cynllun arbedion ar gyfer 2021/22 yn ogystal â 2 gynllun ychwanegol sy'n parhau o flynyddoedd blaenorol oherwydd oediad. Mae rhain ar hyn o bryd unai wedi eu gwireddu neu ar drac i'w gwireddu cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

4.3 Fodd bynnag, mae hi'n gynnar iawn yn y flwyddyn ariannol ac felly gobeithiaf allu cadarnhau fod y cynlluniau hyn yn symud yn eu blaen yn fy adroddiad nesaf.

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Swyddog Monitro:** Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Pennaeth Cyllid:**

Mae'r adroddiad yn amlygu nifer o ffyrdd mae'r pandemig wedi cael effaith sylweddol ar fesurau perfformiad yr Adran ac oherwydd hynny wedi creu oediad mewn ambell i gynllun arbedion. Rwyf yn ymwybodol o'r pwysau mawr ar y Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd wrth iddynt gael eu tynnu mewn i'r rhaglen Profi, Olrhain a Diogelu ar gyfer Gwynedd a bydd eu gwaith yn parhau hyd y gellir ei ragweld. Nodaf fod bwriad cyflwyno adroddiad i'r Tîm Arweinyddiaeth / Cabinet maes o law o ran capasiti'r gwasanaeth.

Mae sgil-effaith y pandemig hefyd wedi creu risgiau newydd i'r Adran (e.e. rheolaeth cerbydau mewn rhai ardaloedd ac yn arbennig cartrefi modur) gyda nifer gynyddol o ymwelwyr yn penderfynu peidio mynd dramor ar eu gwyliau ac yn ymweld â Gwynedd. Bydd effaith ariannol yr heriau hyn yn parhau dan adolygiad.

# BLAENRAGLEN WAITH

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

| Dyddiad trafodaeth yn y Cabinet | Eitemau i'w trafod | Aelod Cabinet |
|---|---|---|
| **Chwarter 2 2021/22**<br>**1 Gorffennaf – 30 Medi** | | |
| **28 Medi** | Ysgol Abersoch – Adroddiad yn dilyn y Rhybudd Statudol | Cyng. Cemlyn Williams |
| | Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch | Cyng. Nia Jeffreys |
| | Adroddiad Blynyddol Cyflogaeth | Cyng. Nia Jeffreys |
| | Strategaeth Ariannol - Cyllideb 2022/23 a Blynyddoedd Dilynol | Cyng. Ioan Thomas |
| | Adroddiad Perfformiad Adran Addysg | Cyng. Cemlyn Williams |
| | Adroddiad Perfformiad yr Adran Gyllid | Cyng. Ioan Thomas |
| **Chwarter 3 2021/22**<br>**1 Hydref – 31 Rhagfyr** | | |
| **12 Hydref** | Cyllideb Refeniw 2021/22 - Adolygiad diwedd Awst | Cyng. Ioan Thomas |
| | Rhaglen Gyfalaf 2021/22 - Adolygiad diwedd Awst | Cyng. Ioan Thomas |
| | Trosolwg Arbedion – Adroddiad Cynnydd ar wireddu Cynlluniau Arbedion | Cyng. Ioan Thomas |
| | Adroddiad Hanner Blwyddyn – Gwella Gwasanaeth | Cyng. Nia Jeffreys |

| **Dyddiad trafodaeth yn y Cabinet** | **Eitemau i'w trafod** | **Aelod Cabinet** |
|---|---|---|
| | Adroddiad Perfformiad Adran Economi a Chymuned | Cyng. Gareth Thomas |
| | Adroddiad Perfformiad Adran Cefnogaeth Gorfforaethol | Cyng. Nia Jeffreys |
| **3 Tachwedd** | Adroddiad Perfformiad Adran Tai ac Eiddo | Cyng. Craig ab Iago |
| **30 Tachwedd** | Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd | Cyng. Dyfrig Siencyn |
| | Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet dros Blant a Cefnogi Teuluoedd | Cyng. Dilwyn Morgan |
| | Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet dros Oedolion, Iechyd a Llesiant | Cyng. Dafydd Meurig |
| **21 Rhagfyr** | Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet dros Briffyrdd a Bwrdeistrefol ac Ymgynghoriaeth Gwynedd | Cyng. Catrin Wager |
| | Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet dros Amgylchedd | Cyng. Gareth Griffith |
| | Blaen raglen y Cabinet | Cyng. Dyfrig Siencyn |
| **Chwarter 4 2021/22**<br>**1 Ionawr – 31 Mawrth** | | |
| **18 Ionawr** | Adroddiad Perfformiad Adran Addysg | Cyng. Cemlyn Williams |
| | Adroddiad Perfformiad yr Adran Gyllid | Cyng. Ioan Thomas |
| | Cyllideb Refeniw 2021/22 – Adolygiad diwedd Tachwedd 2021 | Cyng. Ioan Thomas |
| | Rhaglen Gyfalaf 2021/22 – Adolygiad diwedd Tachwedd 2021 | Cyng. Ioan Thomas |
| **15 Chwefror** | Adroddiad Perfformiad Adran Economi a Chymuned | Cyng. Gareth Thomas |
| | Adroddiad Perfformiad Adran Cefnogaeth Gorfforaethol | Cyng. Nia Jeffreys |

| Dyddiad trafodaeth yn y Cabinet | Eitemau i’w trafod | Aelod Cabinet |
|---|---|---|
| | Cyllideb 2022/23 | Cyng. Ioan Thomas |
| | Strategaeth Cyfalaf 2022/23 (yn cynnwys Strategaethau Buddsoddi a Benthyg) | Cyng. Ioan Thomas |
| | Trosolwg Arbedion – Adroddiad Cynnydd ar wireddu Cynlluniau Arbedion | Cyng. Ioan Thomas |
| | Blaen raglen y Cabinet | Cyng. Dyfrig Siencyn |
| | | |